

**ROYAL WELSH COLLEGE  
OF MUSIC & DRAMA  
COLEG BRENHINOL  
CERDD A DRAMA CYMRU**

**Sinfonia**  
Cymru

**Sinfonia Cymru**

**Richard Strauss and the Power of Music**

**Saturday 14 November | Sadwrn 14 Tachwedd 2020  
6.00pm**

**NEUADD  
DORA STOUTZKER  
HALL**

**Violins**, Caroline Pether, Simmy Singh  
**Violas**, Lowri Thomas, Kim Becker  
**Cellos**, Steph Tress, Deni Teo  
**Double Bass**, Elen Roberts

**Programme | Rhaglen**

**Richard Strauss** String Sextet from *Capriccio*, Op. 85

**Richard Strauss** *Metamorphosen*, realised for string septet by Rudolf Leopold

## Biographies

**Sinfonia Cymru** is an orchestra for musicians in the early years of their careers - typically from leaving conservatoire up to age 30. We audition annually, aiming to attract the best freelance players from across the UK. We present a wide range of projects from chamber orchestral programmes to chamber music, working in concert halls and community settings. Alongside developing their technical and musical abilities we also strive to give players opportunities to explore and develop their creativity – this could be by working with artists from other genres, by curating their own projects, or self-directed orchestral programmes. Find out more about our players, our live and digital performances, and look out for audition notices on our website – [www.sinfonia.cymru](http://www.sinfonia.cymru) and check out recent projects on our YouTube channel.

### **Caroline Pether** Violin

Caroline is the Leader of both Manchester Camerata and Sinfonia Cymru. Chamber music sensibilities are at the heart of Caroline's music-making; she enjoys a regular duo partnership with Camerata's principal cellist Hannah Roberts and participates in chamber music projects with organisations across the UK. Caroline is passionate about enthusing and educating the next generation of musicians in her work as a Violin Tutor at the Royal Birmingham Conservatoire and whilst delivering master-classes and workshops elsewhere.

### **Simmy Singh** Violin

Simmy grew up in Llandybie in South Wales and studied at the Royal Northern College of Music. She has since molded a varied freelance career. She prides herself on being a creative and crossover violinist that is taking her classical upbringing into new realms such as leading the Kaleidoscope Orchestra; working with artists from the worlds of jazz, electronic and pop such as Bill Laurance, Tom Walker and Werkha; and being a founding member of the Manchester Collective.

### **Lowri Thomas** Viola

Lowri Thomas is from Alltwen, Pontardawe and studied at the Royal Welsh College of Music and Drama, going on to complete postgraduate studies at the Royal College of Music. Lowri successfully auditioned for the London Philharmonic Orchestra's Foyle Future First Scheme and has had trials with the BBC National Orchestra of Wales and Welsh National Opera. Performing regularly with ensembles such as the BBC Symphony Orchestra, she is also a member of Live Music Now and Music in Hospitals and Care.

**Kim Becker** Viola

Having studied at the Royal Academy of Music, Kim returned to her northern roots last year to play with the Halle as part of their String leadership training scheme. This year she has taken up the position of Junior Fellow at the Royal Northern College of Music and has also joined the Victoria String Quartet. Kim freelances with ensembles such as Manchester Camerata, Bournemouth Symphony Orchestra and Psappha.

**Stephanie Tress** Cello

Steph is from Kingston-upon-Thames and, after studying for a year in Bremen, Germany, went to complete the Joint Course at the University of Manchester and RNCM. She performs a lot of contemporary music with ensembles such as House of Bedlam, but her main focus is playing music new and old with the Solem Quartet. The quartet have felt fortunate to have been able to keep playing through the pandemic and are looking forward to some big projects over the next few years.

**Deni Teo** Cello

Deni Teo is from London and completed her undergraduate and master's degrees at the Royal College of Music, studying with Melissa Phelps. She enjoys a varied career in orchestral playing, contemporary music and session work. Deni freelances with the BBC Symphony Orchestra and Royal Liverpool Philharmonic Orchestra and is currently on trial with the Royal Scottish National Orchestra. She is a member of contemporary groups Explore Ensemble and UPROAR Wales New Music Ensemble.

**Elen Roberts** Double bass

Originally from Cardiff, Elen has recently graduated with a Distinction in her Master's from the Royal Academy of Music. A scholarship student she studied with Graham Mitchell, Tom Goodman and Dominic Seldis. Elen enjoys freelancing with the BBC National Orchestra of Wales, the Royal Philharmonic Orchestra, the London Philharmonic Orchestra and the Bournemouth Symphony Orchestra.

## **Bywgraffiadau**

Cerddorfa ar gyfer cerddorion ym mlynnyddoedd cynnar ei gyrfaoedd yw **Sinfonia Cymru** - yn nodweddiadol o'r cyfnod pan fyddant yn gadael conservatoire hyd at 30 oed. Rydym yn cyfweid yn flynyddol, gyda'r nod o ddenu'r chwaraewyr llawrydd gorau o bob rhan o'r DU. Byddwn yn cyflwyno ystod eang o brosiectau yn amrywio o raglenni cerddorfaol siambr i gerddoriaeth siambr, gan weithio mewn neuaddau cyngerdd ac mewn lleoliadau yn y gymuned. Ochr yn ochr â datblygu eu galluoedd technegol a cherddorol rydym hefyd yn ceisio rhoi cyfleoedd i chwaraewyr archwilio a datblygu eu creadigrwydd - gallai hyn ddigwydd trwy weithio gydag artistiaid o genres eraill, drwy guradu eu prosiectau eu hunain, neu raglenni cerddorfaol a hunan-gyfarwyddir. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein chwaraewyr, ein perfformiadau byw a digidol, a chadw llygaid am ein hysbysiadau clyweliadau ar ein gwefan – [www.sinfonia.cymru](http://www.sinfonia.cymru) a gweld ein perfformiadau diweddar ar ein sianel YouTube.

### **Caroline Pether** Feiolin

Caroline yw Blaenwr Manchester Camerata a Sinfonia Cymru. Mae ymwybyddiaeth o gerddoriaeth siambr wrth galon creu cerddoriaeth Caroline; mae'n mwynhau partneriaeth ddeuawd reolaidd gyda phrif chwaraewr soddgrwth Camerata Hannah Roberts a bydd yn cymryd rhan mewn prosiectau cerddoriaeth siambr gyda sefydliadau ledled y DU. Mae Caroline yn angerddol dros ysgogi ac addysgu'r genhedlaeth nesaf o gerddorion yn ei gwaith fel Tiwtor Feiolin yng Nghonservatoire Brenhinol Birmingham yn ogystal â phan fydd yn cyflwyno dosbarthiadau meistr a gweithdai mewn manau eraill.

### **Simmy Singh** Feiolin

Tyfodd Simmy i fyny yn Llandybie ac astudiodd yng Ngholeg Cerdd Brenhinol y Gogledd. Ers hynny mae wedi creu gyrfa lawrydd amrywiol iddi'i hun. Mae'n ymfalchïo mewn bod yn feiolinydd creadigol ac un sy'n croesi genres a bydd yn mynd â'i magwraeth glasurol i feysydd newydd fel bod yn flaenwr Cerddorfa Kaleidoscope; gweithio gydag artistiaid o fyd jazz, electronig a phop megis Bill Laurance, Tom Walker a Werkha; ac mae'n aelod gwreiddiol o'r Manchester Collective.

### **Lowri Thomas** Fiola

Mae Lowri Thomas yn hanu o Alltwen, Pontardawe. Astudiodd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ac yna mynd ymlaen i gwblhau astudiaethau ôl-radd yn y Coleg Cerdd Brenhinol. Cafodd Lowri glyweliad llwyddiannus ar gyfer Cynllun Foyle Future First Cerddorfa Ffilharmonig Llundain ac mae wedi treulio cyfnodau

prawf gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac Opera Cenedlaethol Cymru. Bydd yn perfformio'n rheolaidd gydag ensembles megis Cerddorfa Symffoni y BBC ac mae hefyd yn aelod o Cerdd Byw Nawr a Cherddoriaeth mewn Ysbytai a Gofal.

### **Kim Becker** Fiola

Ar ôl astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol, dychwelodd Kim i'w gwreiddiau yng Ngogledd Lloegr llynedd i chwarae gyda Cherddorfa'r Halle fel rhan o dîm cynllun hyfforddi arweinyddiaeth Llinynnau y gerddorfa. Eleni mae wedi dechrau ar waith fel Cymrawd Ifanc yng Ngholeg Cerdd Brenhinol y Gogledd a hefyd wedi ymuno â Phedwarawd Llinynnol Victoria. Bydd Kim yn gweithio'n llawrydd gydag ensembles megis Manchester Camerata, Cerddorfa Symffoni Bournemouth a Psappha.

### **Stephanie Tress** Soddgrwth

Daw Steph o Kingston-upon-Thames ac, ar ôl astudio am flwyddyn yn Bremen yn yr Almaen, aeth ymlaen i gwblhau'r Cwrs Cyfun ym Mhrifysgol Manceinion a'r RNCM. Bydd yn perfformio llawer o gerddoriaeth gyfoes gydag ensembles megis House of Bedlam, ond mae'n canolbwyntio'n bennaf ar chwarae cerddoriaeth hen a newydd gyda Phedwarawd Solem. Mae'r pedwarawd yn teimlo'n ffodus i fod wedi gallu parhau i chwarae drwy'r pandemig ac mae'n edrych ymlaen at brosiectau mwy dros y blynyddoedd nesaf.

### **Deni Teo** Soddgrwth

Mae Deni Teo yn hanu o Lundain a chwblhaodd ei gradd a'i gradd meistyr yn y Coleg Cerdd Brenhinol, yn astudio gyda Melissa Phelps. Mae'n mwynhau gyrfa amrywiol ym meysydd chwarae cerddorfaol, cerddoriaeth gyfoes a gwaith sesiwn. Bydd Deni yn gweithio'n llawrydd gyda Cherddorfa Symffoni y BBC a Cherddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl ac ar hyn o bryd mae ar gyfnod prawf gyda Cherddorfa Genedlaethol Frenhinol yr Alban. Mae'n aelod o'r grwpiau cyfoes Explore Ensemble ac Ensemble Cerddoriaeth Newydd Cymru UPROAR.

### **Elen Roberts** Bas dwbl

Yn ddiweddar enillodd Elen, sy'n wreiddiol o Gaerdydd, radd Meistr gyda Rhagoriaeth o'r Academi Gerdd Frenhinol. Roedd yn fyfyrwr ysgoloriaeth ac astudiodd gyda Graham Mitchell, Tom Goodman a Dominic Seldis. Mae'n mwynhau gweithio'n llawrydd gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol, Cerddorfa Ffilharmonig Llundain a Cherddorfa Symffoni Bournemouth.

## Programme

**Richard Strauss** String Sextet from *Capriccio*, Op.85

**Richard Strauss** *Metamorphosen*, realised for string septet by Rudolf Leopold

The rise to power of the Third Reich in Germany and Austria made the latter decades of Richard Strauss's life difficult. Already a towering musical figure in Germany as a composer and conductor, he spent much time working closely with the regime, conducting at the 1936 Olympic Games in Berlin, and maintaining good relationships with Nazi officials throughout the Second World War. Such a relationship did not stem from any strong sense of sympathy for Nazi ideology, and certainly not from anti-Semitic beliefs; Strauss' daughter-in-law was Jewish and Strauss worked closely with the Nazis to keep her and her children safe from persecution, as well as to preserve his own professional stature.

Not all his music was appreciated by the regime, with Joseph Goebbels ending his presidency of the *Reichsmusikkammer* and banning performances of his 1935 opera *Die schweigsame Frau*, for which Strauss had collaborated with the Jewish librettist Stefan Zweig. Subsequently, however, his light comic opera *Capriccio* received its premiere in 1942, coinciding with Strauss and his family moving to Vienna to live under the protection of the head of the Hitler Youth, Baldur von Schirach. Such safety was, however, short-lived and Strauss' daughter-in-law would spend the final two years of the war under house arrest. Strauss himself would also end the war on a more bitter artistic note by writing *Metamorphosen*, a musical outpouring that has often been labelled Strauss' reaction to the destruction of Germany's opera houses, although Strauss himself never confirmed the meaning of the piece or its title and the work was a commission, written for and dedicated to the Swiss conductor Paul Sacher.

Strauss, writing at this time of personal and professional strife, uses these two war-time works to in some way explore the power of musical expression. *Capriccio* is concerned with the relative expressive powers of music and words; the opera begins with the sextet that is performed here today, which is the work of the character, the composer and allegory for music Flamand, and heard as if in rehearsal. The music is, however, unmistakably Strauss's, invoking a style reminiscent of his music from the end of the nineteenth century despite the opera's eighteenth-century setting; often now heard out of the context of the opera, the sextet becomes Strauss's own testament to music's efficacy.

*Metamorphosen* is a much darker, more poignant work and its intensity renders persuasive its connection to the deep frustrations Strauss expressed in his diary entries in 1945. Strauss composed the work for twenty-three solo string instruments, but in 1990 a short score was found that suggested he had originally conceived the work for seven players. The cellist Rudolf Leopold produced a performing version of the work for string septet, "realising" Strauss' initial vision for the piece.

## Rhaglen

**Richard Strauss** Chwechawd Llinynnol allan o *Capriccio*, Op.85

**Richard Strauss** *Metamorphosen*, gwirededwyd ar gyfer seithawd llinynnol gan Rudolf Leopold

O ganlyniad i'r Drydedd Reich yn dod i rym yn yr Almaen ac Awstria bu degawdau olaf bywyd Richard Strauss yn rhai anodd. Ac yntau eisoes yn ffigur cerddorol aruthrol yn yr Almaen fel cyfansoddwr ac arweinydd, treuliodd lawer o amser yn gweithio'n agos gyda'r gyfundrefn, gan gymryd rôl arweinydd yng Ngemau Olympaidd 1936 yn ninas Berlin, a chynnal perthynas dda gyda swyddogion y Natsïaid drwy gydol cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Nid oedd y berthynas yn seiliedig ar unrhyw gydymdeimlad cryf â syniadaeth y Natsïaid, ac yn sicr nid y credoau gwrth-Semitaidd; Iddewes oedd merch yng nghyfraith Strauss a gweithiodd yn agos gyda'r Natsïaid i'w chadw hi a'i phlant yn ddiogel rhag erledigaeth, a hefyd i gynnal ei statws proffesiynol ei hun. Ni werthfawrogwyd ei holl gerddoriaeth gan y gyfundrefn, gyda Joseph Goebbels yn terfynu ei lywyddiaeth o'r *Reichsmusikkammer* ac yn gwahardd perfformiadau ei opera 1935 *Die schweigsame Frau*, yr oedd Strauss wedi cydweithio arni gyda'r libretydd o Iddew Stefan Zweig. Yn dilyn hynny, fodd bynnag, perfformiwyd ei opera gomig *Capriccio* am y tro cyntaf ym 1942, gan gyd-fynd â Strauss a'i deulu'n symud i Fienna i fyw o dan nodded pennaeth Urdd Ieuencid Hitler, Baldur von Schirach. Fodd bynnag, byrhoedlog oedd nodded o'r fath a byddai merch yng nghyfraith Strauss yn treulio dwy flynedd olaf y rhyfel wedi'i chyfyngu i'w thŷ. Byddai Strauss ei hun hefyd yn diweddu'r rhyfel ar nodyn artistig mwy chwerw drwy ysgrifennu *Metamorphosen*, arllwysiad cerddorol sy'n aml wedi'i labelu fel ymateb Strauss i ddinistriad tai opera'r Almaen, er na wnaeth y cyfansoddwr ei hun erioed gadarnhau ystyr y gair nai'i deitl a chomisiwn oedd y gwaith, a ysgrifennwyd ar gyfer ac a gyflwynwyd i'r arweinydd Paul Sacher o'r Swistir.

Gan ysgrifennu ar yr adeg yma o gythrwfl personol a phroffesiynol, mae Strauss yn defnyddio'r ddau waith hwn o gyfnod y rhyfel i archwilio mewn rhyw fodd rym mynegiant cerddorol. Mae *Capriccio* yn ymwneud â grymoedd mynegiannol cymharol cerddoriaeth a geiriau; mae'r opera'n agor gyda'r chwechawd a berfformir yma heddiw, sy'n waith y cymeriad, y cyfansoddwr ac alegori ar gyfer cerddoriaeth, Flamand, ac fe'i clywir fel petai mewn rihyrstal. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth mai cerddoriaeth Strauss ydyw, gan ei fod yn defnyddio arddull tebyg i'w gerddoriaeth o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg er bod yr opera wedi'i lleoli yn y ddeunawfed ganrif; mae'r chwechawd, a glywir yn aml erbyn hyn allan o gyd-destun yr opera, yn dystiolaeth bersonol Strauss o effeithiolrwydd cerddoriaeth.

Mae *Metamorphosen* yn waith llawer tywyllach, mwy ingol ac mae ei ddwyyster yn gysylltiad i rwystredigaethau dwfn Strauss a fynegir yn ei sylwadau o'i ddyddiadur ym 1945. Cyfansoddodd Strauss y gwaith ar gyfer tri ar hugain o offerynnau llinynnau unawdol, ond ym 1990 daethpwyd o hyd i sgôr fer a oedd yn awgrymu iddo lunio'r gwaith yn wreiddiol ar gyfer saith chwaraewr. Cynhyrnodd y chwaraewr soddgrwth Rudolf Leopold fersiwn berfformio o'r gwaith ar gyfer seithawd llinynnol, gan e-"wireddu" gweledigaeth wreiddiol Strauss ar gyfer y darn.